


Bridgend County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Cynllun Corfforaethal 2018 - 2022

Un Cyngor yngweithio gyda'n gilydd i wella bywydau

This document is also available in English
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

Contents

| | |
|---|-----------|
| Cyflwyniad | 3 |
| Blaenoriaeth Un: Cefnogi Economi Lwyddiannus | 5 |
| Blaenoriaeth 1: Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo? | 8 |
| Blaenoriaeth Dau: Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol | 11 |
| Blaenoriaeth 2: Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo? | 13 |
| Blaenoriaeth Tri: Defnyddio adnoddau'n ddoethach | 16 |
| Blaenoriaeth 3: Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo? | 18 |
| Y Gyllideb i gefnogi ein blaenoriaethau | 20 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 23 |

Cyflwyniad

Croeso i gynllun corfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2018-19. Mae'r Cyngor yn cyflawni neu'n galluogi llawer o gannoedd o wasanaethau ledled yr holl gymunedau amrywiol yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw'r cynllun corfforaethol hwn yn ceisio cynnwys pob un o'r holl wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni neu a fydd yn eu cyflawni yn y blynyddoedd i ddod. Yr hyn y mae'n ei wneud yw nodi ein blaenoriaethau - y canlyniadau tymor hir yr ydym ni'n dymuno eu cyrraedd gyda'r bobl y mae'n faint i ni eu gwasanaethu ac ar eu cyfer. Rydym yn dymuno cyfrannu i le y mae pobl wrth eu boddau yn byw, gweithio, astudio a gwneud busnes ynddo, lle y mae pobl yn gymwys a bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wella eu cyfleoedd bywyd a'u bod yn iach ac yn annibynnol.

Mae'n hysbys iawn bod gwasanaethau cyhoeddus a chynghorau'n enwedig yn mynd drwy gyfnod o gynydd parhaus. Nid ydym wedi ein heithrio o hyn ac rydym wedi wynebu gostyngiadau yn ein cyllid yn flynyddol ar adeg pan fo costau'n cynyddu'n barhaus, a phan fo anghenion a galw mewn rhannau o'n cymuned yn cynyddu, yn ogystal â chyfrifoldebau statudol newydd nad ydynt yn cael eu hariannu gan amlaf. Mae'n rhaid i ni fod yn onest gyda'n cymunedau a'n partneriaid yn erbyn y cefndir hwn, gan ddweud na all y Cyngor bellach gyflawni pob un o'r gwasanaethau yr oedd yn eu cynnig yn y gorffennol nac i'r un lefel neu ansawdd â'r blynyddoedd a fu.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'n glir gasgliad bach o flaenoriaethau pwysig ar gyfer y tymor hir er mwyn i ni allu cadw pwyslais clir ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i'n cymunedau, er yr holl gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â galw cynyddol ac adnoddau cyfyngedig. Ein blaenoriaethau yw:

- Cefnogi economi lwyddiannus
- Helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol
- Defnyddio adnoddau'n ddoethach

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r blaenoriaethau hyn* - gan esbonio pam eu bod yn flaenoriaethau i ni ac amlygu sut yr ydym yn bwriadu gwneud cynnydd arnynt. Rydym yn creu adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n dangos sut y gwnaethom berfformio yn erbyn y cynllun hwn a'n cynlluniau mwy manwl eraill. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cynnwys, o dan bob blaenoriaeth, rai enghreifftiau o sut yr ydym ni wedi gwneud cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn y cyfnod blaenorol.

Ceir rhagor o wybodaeth ar sut y byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn ynghyd â'n dyheadau ar gyfer ein holl wasanaethau eraill yng nghynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau unigol. Er enghraifft, mae'n amlwg bod diogelu ein hoedolion a'n plant mwyaf agored i niwed yn bwysig i ni; ceir manylion am ein gwaith fel awdurdod cynllunio, ein gwaith cynnal a chadw priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, casglu gwastraff, glanhau'r strydoedd, casglu refeniw a gweinyddu budd-daliadau, diogelu'r cyhoedd, chwaraeon, y celfyddydau a llyfrgelloedd, a hefyd codi safon cyraeddiadau addysgol, yng nghynlluniau y cyfarwyddiaethau hynny. Cefnogir pob un o'n cynlluniau, gan gynnwys y cynllun hwn, gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chan reoli perfformiad parhaus cadarn.

Wrth ddatblygu ei gynllun corfforaethol, mae'r Cyngor wedi ystyried y math o sefydliad y mae'n dymuno'i fod. Felly ein gweledigaeth yw gweithredu fel "Un Cyngor yn gweithio gyda'n gilydd i wella bywydau".

Rydym wedi seilio ein blaenoriaethau ar nifer o egwyddorion allweddol. Mae'r egwyddorion hyn yn amlygu'r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth â'n dinasyddion, ein cymunedau a sefydliadau eraill i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol, a hynny yn y ffordd gorau y gallwn ni ei wneud. Yr egwyddorion hyn yw:

* Y tair Blaenoriaeth hyn yw ein hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymur) 2015 a'n hamcanion gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Lle bynnag y bo'n bosibl bydd y Cyngor yn cynorthwyo cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor.
- Bydd y Cyngor yn canolbwyntio adnoddau sy'n lleihau ar y cymunedau a'r unigolion sydd â'r anghenion mwyaf.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i lywio'i benderfyniadau.
- Bydd y Cyngor yn ysgogi ac yn datblygu gallu ymhlith y trydydd sector i adnabod anghenion lleol ac ymateb iddynt.
- Ni fydd y Cyngor yn gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrlon a phragmatig â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Bydd y Cyngor yn gweithio fel un Cyngor ac yn annog gwahanol rannau o'r sefydliad i beidio â datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy'n wahanol heb fod angen.
- Bydd y Cyngor yn trawsnewid y sefydliad a llawer o'i wasanaethau ac wrth wneud hynny bydd yn dwyn gostyngiadau yn y gyllideb ariannol yn ogystal â gwelliannau.

Yn olaf, rydym hefyd wedi mabwysiadu set o werthoedd sy'n cynrychioli'r hyn yr ydym yn sefyll drosto ac yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym ni'n gweithio:

- Teg – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb
- Uchelgeisiol – yn ceisio gwella'r hyn a wnawn ac yn anelu at ragoriaeth o hyd
- Canolbwyntio ar ddinasyddion – cofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol
- Effeithlon – trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian

Byddwn yn adrodd ar gynnydd drwy ein Hadroddiad Blynyddol. Mae ein hadroddiadau blynyddol blaenorol ar gael yn www.bridgend.gov.uk. Byddwn yn adolygu ac adnewyddu'r cynllun hwn yn flynyddol.

Rydym yn parhau i groesawu eich sylwadau ar y cynllun hwn. Caiff eich adborth ei ystyried yn ystod yr adolygiad blynyddol ac mae croeso i chi ei roi bob amser. Gallwch ei roi drwy ein gwefan: www.bridgend.gov.uk; drwy Twitter: @CBSPenybont; drwy e-bost i improvement@bridgend.gov.uk; neu drwy ysgrifennu at y Tîm Perfformiad Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.



Y Cynghorydd Huw David
Arweinydd y Cyngor



Darren Mepham
Prif Weithredwr

Blaenoriaeth Un: Cefnogi Economi Lwyddiannus

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i wneud y sir yn lle da i gynnal busnes, i bobl fyw, gweithio, astudio a dod ar ymweliad, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar wella sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y sir.

Ein hamcanion

- * Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i Lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y fwrdeistref sirol
- * Creu amodau ar gyfer twf a menter
- * Chreu canol trefi llwyddiannus

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae ein dinasyddion wedi dweud wrthym bod economi lewyrchus leol yn un o'u prif flaenoriaethau. Rydym eisiau datblygu sir lle y mae gan bobl fwy o gyfleoedd i gael swyddi ystyrlon, i ddatblygu gyrfa ac i wella eu hincwm teuluol a'u hamgylchiadau.

Rydym yn gwybod bod lefelau ffyniant uwch yn hybu iechyd a lles ac yn creu cymunedau mwy cydnerth sydd angen llai o wasanaethau. I gael cydnerthedd yn y tymor hir mae angen i'n canol trefi a'n busnesau fod yn broffidiol, creu cyfoeth, darparu swyddi, denu buddsoddiadau, gwella sgiliau ac annog pobl i ymweld â'r sir.

Rydym yn credu bod addysg yn parhau i fod y dull pwysicaf er mwyn gwella cyfleoedd bywyd a chydnerthedd pobl ifanc. Mae ein ffyniant dyfodol yn y tymor hir yn dibynnu ar sgiliau a gwybodaeth ein cymunedau.

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at economi carbon isel drwy ein cynlluniau gwresogi carbon isel yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr ac yng Nghwm Llynfi, ac rydym wrthi'n paratoui ar gyfer cyflawni cam nesaf prosiect Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Sut yr ydym ni wedi gwneud hyd yn hyn?

Mae'r rhestr isod yn amlygu rhai o'n cyraeddiadau yn ystod 2016-17 o dan y flaenoriaeth hon:

- Rydym wedi cefnogi 722 o bobl leol i ddatblygu sgiliau er mwyn iddynt allu manteisio ar gyfleoedd i lwyddo drwy Cymunedau am Waith, Pontydd i Waith a'r Prosiect Cyflogaeth a Sgiliau Pen-y-bont ar Ogwr (BESP).
- Cynyddodd canran y disgyblion 15 mlwydd oed a gyrhaeddodd drothwy Lefel 2 o 59.7% i 61.4%, a chynyddodd canran y disgyblion Safon Uwch sy'n llwyddo i ennill 2 Safon Uwch (gradd A - E) o 97.6% yn y flwyddyn flaenorol i 98.3%.
- Gwnaethom gefnogi busnesau lleol a chynyddodd nifer y busnesau a gofrestrwyd ar gyfer y cynllun Talu wrth Ennill a TAW yn y fwrdeistref sirol am y drydedd flwyddyn yn olynol, a hynny o 4,440 i 4,540.
- Cwblhawyd y prosiect ailwampio Maes Parcio y Rhiw mewn pryd ac o fewn y gyllideb.
- Cynhaliwyd neu datblygwyd prosiectau adfywio canol y dref a ariennir yn allanol gwerth £31.5 miliwn yn ystod y flwyddyn
- Cynyddodd nifer ein hymwelwyr o 11,541,363 i 13,026,637, oherwydd cyfraniad y Bencampwriaeth Agored i Golffwyr Hŷn ac Eisteddfod yr Urdd ym Mhencoed. Cynyddodd hefyd werth cyfanswm y gwariant gan dwristiaid o £313 miliwn i bron i £330 miliwn.

Ein Rhaglenni Allweddol i gefnogi'r flaenoriaeth hon

- **Y Fargen Ddinesig** - rhaglen gyfalaf yw hon y mae'r Cyngor ynghyd â'r Cyngorau cyfagos yn ne-ddwyrain Cymru wedi ei sicrhau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd rhaglen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gwerth £1.28 biliwn yn cynnig amrywiaeth o raglenni a fydd yn gwella cysylltedd, seilwaith ffisegol a digidol yn ogystal â llywodraethu busnes rhanbarthol yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf. Bwriedir i'r Fargen ddarparu 25,000 o swyddi ychwanegol ar draws y rhanbarth.
- **Adolygiad Strategol o Addysg a Hyfforddiant Ôl-16** - mae'r rhaglen yn gwerthuso'r ddarpariaeth addysg a'r cwricwlwm sydd ar gael ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod opsiynau eglur ar gael i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr yn y fwrdeistref sirol.
- **Rhaglen Economi Lwyddiannus** - mae'r rhaglen hon yn cynnwys cynlluniau adfywio a datblygu lleol allweddol, gan gynnwys Ailwampio Neuadd y Dref ym Maesteg, datblygu Canolfan Chwaraeon Dŵr Bae Rest, ailwampio Ciosg yr Hawrbwr, a hefyd Canolfannau Menter, sy'n creu gweithleoedd newydd i fusnesau. Rydym hefyd wrthi'n datblygu rhaglen ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, gan geisio am gyllid gan Raglen Targedu Buddsoddiad Adfywio Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gynigir gan strategaethau a rhaglenni ariannu adfywio, gan gynnwys dod â newid gwirioneddol yn y cymoedd drwy Dasglu'r Cymoedd, a byddwn yn llobio dros brosiectau trawsnewidiol megis croesfan rheilffordd Pen-coed.
- **Alinio Grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi** - byddwn yn symleiddio'r grantiau hynny gan ganolbwyntio ar wella tlodi plant drwy ymyraethau cynnar drwy raglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, a'r Gronfa Waddol ar gyfer Cefnogi Pobl a Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus; Cymru gydnherth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Pwy fydd yn ein helpu?

Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Preifat; Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr; Partneriaid y Fargen Ddinesig; Coleg Penybont a darparwyr hyfforddiant; Gyrfa Cymru; a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Pa gamau y byddwn yn eu cymryd i gyrraedd yr amcanion hyn?

Amcan - Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y fwrdeistref sirol

- Parhau i weithio gyda Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas Caerdydd a phrosiectau lleol a arweinir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr i helpu i lunio cyfleoedd cyflogaeth a datblygu gweithlu medrus i ddiwallu anghenion yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cynnig prentisiaethau o ansawdd uchel ar gyfer pob oedran.
- Gweithio gyda Thasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru i greu cyfleoedd gorau ar gyfer buddsoddi yn ein cymoedd er mwyn cynyddu ffyniant economaidd. (Menter gan Lywodraeth Cymru yw Tasglu'r Cymoedd sydd â'r nod o gyflwyno newid economaidd yng Nghymoedd y De drwy greu swyddi o ansawdd da a helpu pobl i gael gafael ar sgiliau).
- Gweithio gydag unigolion a theuluoedd sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, sy'n dioddef tlodi mewn gwaith, yn wynebu rhwystrau i weithio neu sydd mewn perygl o dlodi, i wella'u cyfleoedd gwaith.

- Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i ddatblygu strategaeth trechu tlodi ac alinio ein hymdrechion gwrth-dlodi'n well er mwyn targedu ardaloedd lle y mae cyfran gynyddol o aelwydydd di-waith â phlant.
- Gweithio gydag ysgolion i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad oes ganddynt yr hawl i brydau ysgol am ddim a gwella canlyniadau dysgwyr ar gyfer grwpiau eraill sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc.
- Datblygu ymhellach strategaethau i gynorthwyo pobl ifanc sy'n fwy abl a thalentog na'u cyfoedion i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn.
- Cwblhau'r adolygiad ar gwricwlwm ac ystadau ysgolion cynradd, uwchradd ac addysg ôl-16 a dechrau ymgynghori ar y cynigion, pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o gyflwyno fframwaith cymhwysedd digidol yn ein hysgolion a datblygu sgiliau codio ein pobl ifanc.

Amcan - Creu amodau ar gyfer twf a menter

- Cyflawni Rhaglen Cyrchfan Porthcawl sy'n Canolbwyntio ar Fuddsoddi (e.e. y datblygiadau Cosy Corner a datblygiad caffi Bae Rest) i dyfu gwerth twristiaeth yn yr economi, cynyddu cyflogaeth a chyfleoedd busnes, a chefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol, chwaraeon a busnes.
- Cyfrannu at ddatblygiad y cynllun busnes ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r nod o ddod â mwy o fuddsoddiad a rheolaeth economaidd i'r ardal leol.
- Cefnogi Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr i gyflawni ei gynllun datblygu a'i raglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2018-2019 a hyrwyddo'r ardal ar gyfer buddsoddi.
- Parhau i wneud cynnydd ar ddatblygu cynlluniau gwresogi carbon isel Cwm Llynfi (Caerau) a Thref Pen-y-bont ar Ogwr a datblygu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Cynllun Gwresogi arloesol er mwyn defnyddio ffynhonnell wres naturiol tanddaearol i wresogi cartrefi.
- Adnewyddu'r Cynllun Datblygu Leol.

Amcan – Creu canol trefi llwyddiannus

- Buddsoddi yn ein canol trefi i wella cyfleusterau presennol a darparu cyfleusterau newydd. Mae hyn yn cynnwys trawsnewid Neuadd y Dref ym Maesteg i ganolfan y celfyddydau a diwylliant, cynlluniau ailddatblygu ym Mhorthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â lobio dros brosiectau trawsnewidiol eraill megis croesfan rheilffordd Pencoed.

Blaenoriaeth 1: Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

Amcan - Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y fwrdeistref sirol

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|----------------------|--|--|---|
| Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth | 69.5% | Cynnydd ar ffigur gwirioneddol diwedd y flwyddyn 2016-17 | Cynnydd ar ffigur gwirioneddol diwedd y flwyddyn 2017-18 | Mae'r duedd gyffredinol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Canlyniad cadarnhaol yw gwrthdroi'r duedd. Mae hwn yn ddangosydd canlyniad ar gyfer poblogaeth nad yw'n briodol gosod targed penodol ar ei chyfer gan fod llawer o ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth yn dylanwadu arni. |
| Canran y bobl sy'n weithgar yn economaidd rhwng 16 a 64 mlwydd oed | 73.2% | Cynnal Lefel wirioneddol 2016-17 73.2% | 73.2% | Mae'r duedd gyffredinol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Canlyniad cadarnhaol yw atal y duedd. Mae hwn yn ddangosydd canlyniad ar gyfer poblogaeth y mae nifer o ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth yn dylanwadu arni. |
| Cyfanswm y prentisiaid a gyflogir ar draws y sefydliad | Dangosydd newydd | 15 | 17 | Seilir y targed ar welliant o 10%. |
| Nifer y lleoliadau gwaith prentisiaeth cyn-brentisiaeth a gymerwyd gan blant sy'n derbyn gofal | Dangosydd newydd | Sefydlu llinell sylfaen | I'w gadarnhau | Penderfynir ar y targed ar gyfer 2018-19 pan fydd y ffigur gwirioneddol ar gyfer 2017-18 yn hysbys. |
| Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd nad oes neb yn gweithio ynddynt | 19.4% (Rhagfyr 2015) | I wella ar ffigur 2016-17 | I wella ar ffigur 2017-18 | Dangosydd poblogaeth yw hwn, felly nid yw'n addas i osod targedau penodol ar ei gyfer. Cofnodwyd data ar gyfer y dangosydd hwn am 2-3 blynedd yn ôl-weithredol. |
| Canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 yn yr Awdurdod a adnabuwyd fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Ystadegau Arolygon Cyrchfannau Blynyddol Gyrfa Cymru | 1.55 | 2.80% | 1.5% | Mae ein strategaeth wedi bod yn hynod effeithiol wrth leihau nifer y rhai hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Gwnaeth Pen-y-bont ar Ogwr y gwelliant mwyaf ond un yng Nghymru yn 2016-17 ac rydym ni erbyn hyn 0.5% yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac rydym yn gobeithio cynnal hyn yn 2018-19. |
| Canran yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu chyflogaeth a) 12 mis b) 24 mis ar ôl gadael gofal | a)45.2% b)50% | a)70% b)70% | a)60% b)55% | Gosodwyd y targed ar gyfer 2017-18 cyn i'r ffigur gwirioneddol ar gyfer 2016-17 fod yn hysbys. Seilir y targed ar gyfer 2018-19 ar berfformiad cyfredol, sy'n heriol ond yn realistig. |
| Canran y rhai sy'n 16-64 mlwydd oed ac nad oes ganddynt gymwysterau | 10.7% (yn 2016) | Amherthnasol (Dangosydd a nodwyd ar gyfer 2018-19) | Llai na ffigur gwirioneddol 2017 (nid yw ar gael eto) | Dangosydd poblogaeth yw hwn. Nid yw'n briodol gosod targed penodol i'r Cyngor pan fo nifer o ffactorau allanol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth yn dylanwadu ar y canlyniad. Mae'r targed felly yn ddangosol. Mae'r ffigurau wedi dangos gostyngiad, o 14% yn 2014 i 10.7% yn 2016. |

Mesurau Addysg (Mae'r ffigyrau ar gyfer cyflawniad addysgol yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd flaenorol)

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|-------------------------|-------------------|-------------------|--|
| Maint (%) y bwch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion 15+ sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim (wedi'i fesur yn ôl y dangosydd Lefel 2 cynhwysol) | 32.5% | 30.1% | 29.9% (amodol) | Cyfrifir targedau'r awdurdod lleol gan ddefnyddio targedau y disgyblion unigol a gyflwynwyd yn nhymor yr hydref 2017. Cesglir y targedau hyn at ei gilydd i gyfrifo targedau ar lefel yr awdurdod lleol. |
| Canran y disgyblion blwyddyn 11, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg | 61.7% | 63.2% | 64.4% (amodol) | Cyfrifir targedau'r awdurdod lleol gan ddefnyddio targedau y disgyblion unigol a gyflwynwyd yn nhymor yr hydref 2017. Cesglir y targedau hyn at ei gilydd i gyfrifo targedau lefel yr awdurdod lleol. |
| Canran yr ysgolion sy'n cwrdd â'r Mesur Dysgu a Sgiliau o ran y pynciau a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16 | Dangosydd newydd | 100% | 100% | Mae'r targed yn parhau yn 100% gan fod pob ysgol yn cydymffurfio ar hyn o bryd. |
| Canran y disgyblion Safon Uwch sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 | 98% | 99% | 99% | Mae ein perfformiad wedi gwella ychydig eleni ac mae ein targed ar gyfer 2018-19 yn adlewyrchu ein hawydd i barhau i wella ar ffigur gwirioneddol 2016-17. |
| Canran y disgyblion sy'n ennill 3 gradd A-A* yn Safon Uwch | 5.7% | 10% | 10.5% | Mae ein targed yn cadarnhau bod y sefyllfa'n gwella ar gyfer y disgyblion hynny sydd â'r potensial i ennill tair gradd A-A* ar lefel A. Y ffigur gwirioneddol ar gyfer 2017-18 oedd 9.5%. Felly, mae ein targed ar gyfer 2018-19 yn adlewyrchu cynnydd o 1% ac mae'n cyfateb erbyn hyn i'r ffigur gwirioneddol ar gyfer Cymru yn 2017-18, sef 10.5%. |

Amcan - Creu amodau ar gyfer twf a menter

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|--|-------------------------|---|------------------------------------|---|
| Cyfanswm gwariant blynyddol gan dwristiaid | £329.76m | £336.36m | Cynnydd 2% ar ffigur 2017-18 | Mae'r cynnydd blynyddol o 2% yn mynd i olrhain targed cenedlaethol Croeso Cymru ar gyfer cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. |
| Nifer y busnesau newydd | Amherthnasol | 535 ffigur gwirioneddol 2017 (Dangosydd newydd ar gyfer 2018-19) | 536 | Mae hwn yn ddangosydd newydd a nodir i fonitro'r lefel gyffredinol o entrepreneuriaeth yn y fwrdeistref sirol. Mae'r nifer yn cynnwys y rhai hynny sy'n cael eu cefnogi gan gronfa adfywio arbennig y Cyngor. Rydym yn ceisio tracio'r dangosydd hwn er mwyn deall yr economi leol. Nid yw'n briodol gosod targed ar gyfer y Cyngor pan fo llawer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar y canlyniad. Mae'r targed, felly, yn ddangosol. |

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|--|----------------------|--|----------------|--|
| Nifer y busnesau sy'n weithredol | Amherthnasol | 4045 ffigur gwirioneddol 2017 (Dangosydd newydd ar gyfer 2018-19) | 4046 | Nod y targed yw monitro newid. Mae'r ffigur ar gyfer busnesau sy'n weithredol ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi codi o 3700 yn 2010 i 4045 yn 2017. |
| Canran deiliadaeth unedau cychwynnol sy'n eiddo'r Cyngor | Amherthnasol | Amherthnasol (Dangosydd newydd ar gyfer 2018-19) | 90% | Dangosydd newydd yw hwn. Disgwylir i'r data llinell sylfaen ar gyfer 2017-18 ddangos tua 5-10% o eiddo gwag, felly, mae 90% yn darged heriol ond realistig. |
| Nifer y cartrefi sy'n elwa ar y cynllyniau gwresogi carbon isel ac ynni adnewyddadwy | Amherthnasol | Amherthnasol | dim | Mae hon yn rhaglen pedair blynedd sydd yn ei chyfnod cychwynnol yn 2018. Mae cant (100) o gartrefi wedi eu targedu i fanteisio ar rwydwaith Gwres Caerau erbyn 2022. |

Amcan – Creu canol trefi llwyddiannus

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|--|-----------------------------------|--|--|---|
| Nifer yr ymwelwyr â chanol trefi - nifer ar gyfer: a) Pen-y-bont ar Ogwr b) Porthcawl | a) 7,791,331 b) 5,055,306 | a) 6,000,000 b) 4,300,000 | a) cynnydd 3% ar ffigur gwirioneddol 2017-18 b) 0% newid yn ffigur gwirioneddol 2017-18 | Gosodwyd y targed ar gyfer 2017-18 cyn i'r ffigur gwirioneddol ar gyfer 2016-17 fod yn hysbys. Seilir y targedau ar gyfer 2018-19 ar y camerâu o dan y contract newydd i fonitro nifer yr ymwelwyr ar gyfer pob tref. Nid yw targed Porthcawl yn newid gan fod data'n dangos bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng ychydig. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth yw'r rheswm y tu ôl i'r gostyngiadau neu ba gamau a fydd yn cael eu cymryd i wrthdroi'r duedd. Hwn fydd pwyslais y gwaith ar gyfer 2018-19. |
| Nifer y lleoliadau gwag mewn canol trefi a) Pen-y-bont ar Ogwr b) Maesteg c) Porthcawl d) Pen-coed | a) 66 b) 10 c) 10 d) 4 | a) 55 b) 19 c) 17 d) amherthnasol | Cynnal ffigurau gwirioneddol 2017-18 yn y pedair tref | Mae'n heriol cyrraedd y targed yn wyneb y patrymau newidiol diwrthdro yn y canolfannau manwerthu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl. Fodd bynnag mae'r lleoliadau gwag ym Mhen-coed eisoes ar lefel isel, sy'n galonogol. Mae'r dangosydd hwn wedi'i ymestyn i gynnwys Pen-coed ar gyfer 2018-19, felly ni osodwyd targed amdano ar gyfer 2017-18. |
| Nifer yr unedau preswyl yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi cael: a) cais cynllunio wedi'i gymeradwyo b) gwaith wedi'i gyflawni | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | a) 30 b) 14 | a) 20 b) 20 | Mae'r targedau'n adlewyrchu strategaeth y Cyngor i amrywio defnydd yr adeiladau yng nghanol trefi. |
| Gwerth ariannol prosiectau adfywio canol trefi a ariennir yn allanol sydd ar waith/yn cael eu datblygu | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | £16m | £15m | Gosodwyd y targed ar sail y prosiectau a gynlluniwyd rhwng 2018 a 2022 ond mae'n ddarostyngedig i benderfyniadau ariannu allanol. |

Blaenoriaeth Dau: Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol

Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n gofalmwr i gymryd camau cynnar i ostwng nifer y bobl sy'n dod, neu i atal pobl rhag dod, yn agored i niwed neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau, i gefnogi unigolion a chymunedau i fod yn gydnherth a'u galluogi i ddatblygu datrysiadau i ddiwallu anghenion a mwynhau bywyd annibynnol cymaint ag y bo modd.

Ein hamcanion

- * Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y meant yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth
- * Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar
- * Cefnogi gofalmwr i gynnal eu rolau
- * Cefnogi'r trydydd sector, cyngorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol

Pam y mae hyn yn bwysig?

Providing the right information, advice and assistance at an early stage can help people and their families stay together. We know that both adults and children benefit. Mae rhoi gwybodaeth, cyngor a chmorth ar adeg gynnar yn gallu helpu pobl a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Gwyddom fod oedolion a phlant yn cael budd o amgylchedd teuluol cefnogol diogel. Mae cefnogi unigolion a theuluoedd i ffynnu yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd eu sefyllfa yn gwaethygu ac y byddant yn dod yn ddibynnol ar wasanaethau'r Cyngor.

Mae dull o'r fath yn bwysig i'r rhai sydd angen cymorth gofal cymdeithasol, ond hefyd i'r rhai sydd angen ystod lawn o wasanaethau eraill gan y Cyngor. Mae'n gynaliadwy yn economaidd ac yn hyrwyddo canlyniadau cymdeithasol a phersonol cadarnhaol. Rydym yn ymrwymedig i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n dda i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr fel eu bod wedi'u harfogi'n well i reoli eu sefyllfaoedd eu hunain a bod gwasanaethau'r Cyngor yn gallu canolbwyntio ar y rhai â'r anghenion mwyaf. Dywedodd wyth deg y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg y dylem ganolbwyntio ar helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol ac y dylem flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer pobl hyn, pobl anabl a phlant.

Trwy adeiladu ar ein hanes o weithio gyda'r trydydd sector, y sector dielw a'r sector preifat, gallwn gynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu dulliau eu hunain o fynd i'r afael â materion lleol a diwallu anghenion pobl o fewn y gymuned.

Sut yr ydym ni wedi gwneud hyd yn hyn?

Amlygir yn y rhestr isod rhai o'n cyflawniadau yn ystod 2016-17 o dan y flaenoriaeth hon:

- Gwnaethom ddatblygu pwynt cyswllt unigol i bobl gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth, a ddefnyddiwyd gan 2,108 o oedolion a 2,042 o blant.
- Cefnogodd ein gwasanaeth ail-alluogi 394 o bobl hyn neu anabl i gynnal eu hannibyniaeth drwy reoli cymaint o'u tasgau byw bob dydd â phosibl ar eu pen eu hunain.
- Gwnaethom fuddsoddi mewn rhaglenni cymorth cynnar wedi'u targedu a rhaglenni ymyrraeth i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. O'r plant a gefnogwyd, mae 75% ohonynt yn parhau i fyw gyda'u teuluoedd.
- Cefnogwyd 3,879 o unigolion a theuluoedd drwy ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i helpu i leihau tiodi plant. Dechreuodd 164 o bobl ifanc ac oedolion mewn cyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant drwy ddefnyddio'r elfen Ymgysylltu a Dysgu i Deuluoedd.
- Cynhaliwyd 277 o asesiadau o ofalmwr sy'n oedolion a 51 o ofalmwr ifanc i nodi eu hanghenion ac i'w cefnogi i barhau â'u swyddogaeth ofalu.
- Cefnogwyd 250 o bobl i aros yn eu cartrefi drwy grantiau cyfleusterau i'r anabl, gan eu helpu i gadw eu hannibyniaeth.

Rhaglenni Allweddol i gefnogi'r flaenoriaeth hon

Ailfodelu Gofal Cymdeithasol:

- Byddwn yn parhau â'r rhaglen sylweddol hon o ailgomisiynu gofal cartref i oedolion, datblygu gofal ychwanegol a gwasanaethau gwybodaeth a chynghori i bobl a'u gofalwyr.
- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i greu Canolfan Diogelu Amlasiantaeth yn un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl bryderon ynghylch diogelu.
- Rydym yn adolygu ein modelau presennol o ofal preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc a gofal seibiant ar gyfer plant ag anabledau er mwyn eu targedu yn fwy a'u gwneud yn fwy effeithiol.

Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Byddwn yn trosglwyddo asedau i gymunedau er mwyn iddynt eu rheoli'n gynaliadwy gan wneud y defnydd gorau o'r asedau yr ydym yn eu cadw.

Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Pwy fydd yn ein helpu?

Defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd, dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr; partneriaid rhanbarthol; partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; y trydydd sector a'r sector preifat.

Pa gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn?

Amcan - Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth

- Parhau i wella sut y mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth da i'r cyhoedd, gan gynnwys cynyddu'r cymorth sydd ar gael drwy gydgyssylltwyr cymuned lleol.
- Parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau yn y gwaith o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.

Amcan - Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar

- Cefnogi datblygiad cenedlaeth newydd o iechyd cymunedol a chanolfannau iechyd a lles ar gyfer ein trigolion, ar y cyd â phartneriaid iechyd.
- Sefydlu model newydd o ddarpariaeth breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a cheisio diwallu eu hanghenion unigol yn y ffordd orau bosibl gan gynnwys cymorth y tu hwnt i 18 mlwydd oed drwy gynnig llety arbennig.
- Cwblhau model gwasanaeth pontio i helpu plant anabl camu i fyd oedolion yn esmwyth.
- Gweithio gydag aelwydydd a phartneriaid i helpu i atal digartrefedd, gan gynnwys cefnogi'r rhai hynny sy'n gadel gofal i sicrhau llety priodol iddynt.
- Gweithio gyda pherchnogion i droi eiddo gwag yn gartrefi i helpu i leddfu'r diffyg o ran llety priodol.
- Cynyddu ymgysylltiad partneriaid, gan gynnwys ysgolion, yn y defnydd o brosesau'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), sy'n ceisio sicrhau y nodir anghenion yn gynnar a bod cymorth yn cael ei roi i blant a theuluoedd.
- Drwy ddilyn ein hegwyddor "Un Cyngor", sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd ar gael yn gweithio gyda'i gilydd yn well i roi cymorth di-dor i blant sy'n agored i niwed pan fydd ei angen a'u hatal rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal.

Amcan - Cefnogi gofalwyr i gynnal eu rolau

- Gweithio gyda phartneriaid ac ysgolion i gefnogi gofalwyr trwy roi'r wybodaeth, cyngor a chymorth cywir pan fo'n berthnasol.
- Recriwtio a chadw gofalwyr ar draws yr amrywiaeth o wasanaethau maethu.

Amcan - Cefnogi'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol.

- Gweithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i gryfhau cymunedau ac i nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau yn lleol.
- Galluogi grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i fod â mwy o lais a rheolaeth dros asedau cymunedol. .

Blaenoriaeth 2: Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

Amcan - Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|--|-----------------------------------|-------------------|-------------------|--|
| Canran yr a) oedolion a b) plant sy'n derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ystod y flwyddyn | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | a) 40% b) 60% | a) 50% b) 70% | Mae hyn yn mesur canran y bobl sy'n dod atom i ofyn am gyngor a chymorth ac sydd, drwy'r cymorth hwn, yn cael eu hatal rhag symud i wasanaethau pellach. |
| Canran y bobl sy'n fodlon â'r gofal a'r cymorth a gawsant a) Plant rhwng 7 17 oed b) Oedolion 18+ oed | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | a) 65% b) 65% | a) 80% b) 80% | Seilir y targedau hyn ar ddata diwedd blwyddyn 2016-17. |
| Nifer y bobl sydd wedi'u hailgyfeirio o wasanaethau prif ffrwd i'w helpu i aros yn annibynnol am gymaint o amser â phosibl | 167 | 200 | 400 | Mae'r targed yn berthnasol i'r maes gofal cymdeithasol cyfan ac mae wedi'i seilio ar berfformiad cyfredol. Cydnabyddir y bydd y ffigurau yn cyrraedd llinell wastad. |
| Canran yr oedolion a gwblhaodd cyfnod o ail-alluogi a, chwe mis yn ddiweddarach: a) sydd â phe cyn llai o ofal a chymorth neu b) sydd heb becyn gofal a chymorth | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | a) 60% b) 60% | a) 62% b) 60% | Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n dod drwy'r gwasanaeth ag anghenion mwy cymhleth, felly bydd pecynnau gostyngedig yn fwy heriol. |

Amcan - Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|-----------------------------------|-------------------|-------------------|---|
| Canran y plant a gefnogwyd i barhau i fyw gyda'u teuluoedd | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 65% | 65% | Mae nifer y plant sydd â chynllun gofal a chymorth yn sefydlogi ac nad yw'n gostwng. Mae'r targed yn parhau i fod yn heriol, ond heb newid. |
| Canran y plant a gafodd ymyraethau Cysylltu Teuluoedd yn ystod y flwyddyn ac a oedd yn parhau i fod allan o'r system ofal ar 31 Mawrth y flwyddyn honno | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 80% | 85% | Mae'r gwasanaeth yn datblygu dulliau gwasanaethu newydd i atal plant rhag bod mewn sefyllfa lle maent yn derbyn gofal. Mae'r gwaith sy'n cael ei gynnal yn peri'r risg y bydd galw ychwanegol yn cael ei roi ar Cysylltu Teuluoedd i ymateb i feini prawf gwasanaeth newydd, a all yn ei dro effeithio ar berfformiad yn y dyfodol. Felly, gosodwyd y targed i adlewyrchu'r risg hon. |

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|-----------------------------------|-----------------------------------|-------------------|--|
| Canran y cynlluniau cymorth a gwblhawyd gan TAF (Tîm o Amgylch y Teulu) sy'n dod i ben â chanlyniadau llwyddiannus | 67% | 60% | 70% | Rydym yn ceisio cynyddu'r gyfradd llwyddiant ar sail blynyddol. Mae'r cynnydd o 10% yn adlewyrchu hyn. |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 12% | 12% | Mae'r targed yn seiliedig ar berfformiad cyfredol a pherfformiad yn y gorffennol, ac ar yr wybodaeth am y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal, sy'n sefydlogi ond nad yn gostwng. |
| Canran yr unigolion a drafodwyd yn y Panel Pontio sydd â chynllun pontio ar waith erbyn eu bod yn 16/17 oed | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 100% | 100% | It is important that at least by the age of 16/17, young people should have a transition plan in place: hence the target is 100%. |
| Y ganran o'r bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol derfynol dros ddarparu llety priodol iddynt | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 14.07% | 12.85% | Mae targed is yn dangos bod y pwyslais ar atal a lliniaru digartrefedd sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o ddyletswydd terfynol. Mae'r gostyngiad yn y targed o flwyddyn i flwyddyn yn dangos bod rhoi cymorth ac ymyrryd yn gynnar yn atal pobl rhag cyrraedd cam mwy difrifol o ddigartrefedd. Ariennir rhywfaint o'r gwaith hwn drwy gyllid dros dro ar gyfer atal digartrefedd gan Lywodraeth Cymru. Ymestynnwyd y grant ar gyfer 2018-19. |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn | 14% | <15% | <13% | Blaenoriaeth y Cyngor yw atal digartrefedd. Seilir y targed ar ffigurau blaenorol. |
| Canran yr anheddau preswyl sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 2.2% | 7.86% | 7.86% | Mae'r targed yn parhau i fod yn heriol. Rhoddir blaenoriaeth i ymateb i'r her o eiddo gwag o fewn y fwrdeistref sirol ar draws y cyfarwyddiaethau ac mae tîm prosiect trawsgyfarwyddiaethol yn gweithredu ar hyn. |
| Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad i ailfeddiannu eiddo gwag | Amherthnasol | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | I'w gadarnhau | Penderfynir ar darged ar gyfer 2018-19 pan fydd y ffigurau gwirioneddol ar gyfer 2017-18 yn hysbys. |
| Canran y bobl sy'n credu y gallant fyw yn fwy annibynnol o ganlyniad i'r Grant Cyfleusterau Anabledd a dderbyniwyd ar gyfer eu cartref | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 75% | 75% | Seilir y targed ar astudiaethau sydd eisoes wedi eu cynnal ar effeithiolrwydd addasiadau tai. |
| Am faint o amser y caiff pobl hŷn (65 oed a throsodd) eu cefnogi ar gyfartaledd mewn cartrefi gofal preswyl | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 1000 nod | diwr- 900 diwrnod | Mae'r targed hwn yn gwella. Rydym yn parhau i gefnogi pobl i aros yn annibynnol gartref am gyfnod hwy, fel y byddant yn treulio llai o amser mewn cartrefi gofal. |

Aim – To support carers in maintaining their roles

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|-----------------------------------|-------------------------|-------------------|--|
| Canran y gofalwyr sy'n oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion drwy eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn | 90.02% | 96.0% | 97% | Targed gwelliant yw hwn. |
| Canran y gofalwyr ifanc hysbys sydd â chynllun gofal a chymorth diweddar ar waith | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | Sefydlu llinell sylfaen | 90% | Targed gwelliant yw hwn sydd wedi ei seilio ar ganran bresennol yr asesiadau o ofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun gofal a chymorth. |

Amcan - Cefnogi'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol.

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|-----------------------------------|-------------------|-------------------|---|
| Nifer yr oedolion a gafodd wasanaeth a ddarparwyd trwy fenter gymdeithasol, cwmni cydweithredol, gwasanaeth a arweinir gan ddefnyddwyr neu sefydliad trydydd sector yn ystod y flwyddyn | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 365 | 370 | Mae hyn yn cyfeirio at bobl sydd â phhecyn gofal ac/neu sydd mewn gofal a reolir. Seilir y targed ar ddata 2017-18 ac mae'n gwella. |
| Nifer yr asedau sy'n eiddo i'r Cyngor a drosglwyddwyd i'r gymuned i'w rhedeg | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 5 | 2 | Er bod trosglwyddo asedau yn parhau i fod yn un o bolisiau'r Cyngor, mae'r Cyngor wrthi'n adolygu ac yn rhesymoli'r broses er mwyn hyrwyddo'r lefel o ymgysylltiad a darparu ar gyfer amgylchiadau allanol yn well, ac felly, mae targed 2018-19 wedi'i ostwng. |

Blaenoriaeth Tri: Defnyddio adnoddau'n ddoethach

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod ein holl adnoddau (yn rhai ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl ac yn rhoi cymorth i ddatblygu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i wireddu blaenoriaethau'r Cyngor.

Ein hamcanion

- * Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- * Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau
- * Manteisio i'r eithaf ar ein hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion
- * Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid
- * Manteisio i'r eithaf ar ein gwariant ar nwyddau a gwasanaethau

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae'r Cyngor wedi gwneud gostyngiadau i'w gyllideb gwerth £36 miliwn yn ystod y pedair blynedd diwethaf ac rydym yn disgwyl gwneud gostyngiadau pellach o ryw £32 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Eleni, rydym yn cynnig darparu bron i 75% o'r gostyngiadau cyllideb a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn drwy ddefnyddio adnoddau'n ddoethach, ac felly lleihau'r effaith ar wasanaethau a werthfawrogi. Mae'n dod yn anos cyflawni gostyngiadau parhaus yn y gyllideb bob blwyddyn, ond rydym yn parhau i newid ein ffyrdd o weithio a'n ffyrdd o ddarparu gwasanaethau gan sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadeiladau, ein pobl a'n gwariant yn ddoethach.

Gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus eto gan ofyn am gynigion ar sut y gallai'r Cyngor arbed arian yn y dyfodol. Roeddem yn falch gweld bod cyfranogiad wedi cynyddu 3.4%, daeth cyfanswm o 2,619 o ymatebion i law. Dangosodd canlyniad yr ymgynghoriad fod 75% o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn bosibl sicrhau effeithlonrwydd ychwanegol o fewn y gwasanaethau hamdden a diwylliant ond nid oeddent yn fodlon i ni leihau lefel bresennol y gwasanaeth er mwyn cyflawni hyn. Cytunodd 50% (1,309 o ymatebwyr) eu bod yn fodlon derbyn ffioedd uwch am rai gwasanaethau, megis meysydd chwaraeon, llyfrgelloedd a rheoli plâu.

Cytunodd 50% yr ymatebwyr fod y dull presennol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yn addas, gan gydnabod y byddai angen amser i gael canlyniadau. Cafwyd 32% o ymatebion a oedd yn cytuno â'r dull ond roeddent yn teimlo bod angen gwneud arbedion mewn rhyw ffordd er mwyn osgoi gorfod gwneud toriadau mewn mannau eraill. I'r gwrthwyneb, roedd 21% o'r ymatebwyr yn dymuno gweld gwasanaethau gofal i bobl hŷn ac anabl yn cael eu diogelu.

Rydym yn parhau i ystyried barn dinasyddion wrth flaenoriaethu ein hadnoddau prin. Fodd bynnag, mae terfyn yn bodoli o ran gostwng capasiti o flwyddyn i flwyddyn, ac ni allwn beryglu ein gallu i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Er bod cyllido yn y tymor hir yn parhau i fod yn heriol i awdurdodau lleol, rydym yn parhau i weithio ar ddarparu a llywio rhai gwasanaethau i sicrhau y gall Pen-y-bont ar Ogwr wynebu'r heriau hyn.

Sut yr ydym ni wedi gwneud hyd yn hyn? Mae'r rhestr isod yn amlygu rhai o'n cyflawniadau yn 2016-17 o dan y flaenoriaeth hon:

- Roeddem yn bwriadu cyflawni gostyngiadau o £7.477 miliwn yn y gyllideb, a llwyddwyd i gyflawni £5.632 miliwn, a chyflawnwyd y gweddill, sef £1.845 miliwn, trwy arbedion amgen, cynyddu'r grant ac incwm arall, a rheoli swyddi gwag yn llym.
- Gwnaethom ddechrau adeiladu Ysgol Gynradd Pencoed newydd, yr ysgol a symudwyd, sef Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw, yn ogystal ag Ysgol Gynradd Brynmenyn newydd. Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar symud Ysgol Gynradd Pencoed ar gampws Heol y Cyw.
- Er mwyn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a'r mynediad atynt, rydym wedi parhau i resymoli ein hystad weinyddol drwy leihau nifer ein hadeiladau a symleiddio ein strwythur.
- Cynhyrwyd £5.625 miliwn o dderbyniadau cyfalaf o'n rhaglen gwaredu asedau, gan ragori ar ein targed o £4 miliwn.
- Cafodd 231 o reolwyr hyfforddiant i wella eu Sgiliau Rheoli Pobl ac i gefnogi staff wrth i'r Cyngor newid, , dilynodd 295 o gyflogeion hyfforddiant Cymraeg a chwblhaodd 59.1% o staff fodiwlau e-ddysgu.
- Rydym wedi ceisio manteisio i'r eithaf ar ein gwariant ar nwyddau a gwasanaethau ac rydym wedi gweithio'n agos gyda'r trydydd sector a busnesau i wella sgiliau'r farchnad a sicrhau bod darparwyr lleol yn 'barod i dendro' ac yn gallu cynnig yn gystadleuol yn erbyn sefydliadau cenedlaethol.

Rhaglenni Allweddol i gefnogi'r flaenoriaeth hon

- **Y Rhaglen Trawsnewid Digidol** – mae'r rhaglen hon yn ceisio newid y ffordd yr ydym yn gweithredu i alluogi cwsmeriaid i gael mynediad at wybodaeth, Cyngor a gwasanaethau ar-lein.
- **Rhesymoli ystad y Cyngor** – mae'r rhaglen hon yn ymwneud â gwaredu asedau, trosglwyddo asedau i gymunedau eu rheoli a gwneud y defnydd gorau o'r asedau y byddwn yn eu cadw.
- **Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion** – mae'r rhaglen hon yn buddsoddi mewn cyfundrefn addysg gynaliadwy mewn adeiladau ysgolion sy'n lleihau costau a'u hól-troed carbon.

Mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus.

Pwy fydd yn ein helpu?

Cyflogeion; Ysgolion; Contractwyr; Undebau Masnach.

Pa gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn?

Amcan - Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

- Gweithredu'r gostyngiadau cyllideb a gynllyniwyd a nodwyd yng nghyllideb 2018-19

Amcan - Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ail-lunio ein systemau a'n prosesau

- Cyflawni ein rhaglen trawsnewid digidol fel y gall dinasyddion ddefnyddio ein system ar-lein i reoli eu treth gyngor a'u cyfrifon budd-daliadau tai a chyflawni arbedion ariannol.
- Awtomeiddio'r prosesau mewnol mwyaf cyffredin er mwyn lleihau costau trafodion a symleiddio prosesau.

Amcan - Manteisio i'r eithaf ar ein hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion

- Darparu digon o leoedd mewn ysgolion yn yr ardaloedd iawn ac mewn ysgolion newydd a'r rhai sydd wedi eu gwella drwy gyflawni'r rhaglen foderneiddio ysgolion yr 21ain ganrif.
- Rhesymoli ystad weinyddol y Cyngor ymhellach er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o lai o swyddfeydd craidd ac yn lleihau nifer yr eiddo ar brydles yr ydym yn talu rhent amdanynt ar hyn o bryd, erbyn mis Mawrth 2019.
- Datblygu dull mwy masnachol o reoli asedau a gwasanaethau'r Cyngor.
- Gweithredu'r model Landlordiaid Corfforaethol er mwyn sicrhau y caiff ystad Eiddo'r Cyngor ei rheoli a'i chynnal mewn modd mwy cydlynol ac effeithlon.
- Marchnata'r rhan o safle Waterton a fydd yn cael ei gwacáu yn rhannol ar gyfer datblygiad tai o dan gynllun Parc Afon Ewenni.
- Gweithredu mesurau lleihau carbon a defnydd o ynni a hyrwyddo arferion da ym mhob un o'n hadeiladau cyhoeddus.
- Adolygu gwariant cyfalaf i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol.

Amcan - Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid

- Cefnogi rheolwyr i arwain staff drwy newid sefydliadol.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i staff fel y gallant ddiwallu anghenion gwasanaethau yn y dyfodol.
- Gwella a hyrwyddo ffyrdd o gynyddu nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau.

Amcan - Manteisio i'r eithaf ar ein gwariant ar nwyddau a gwasanaethau

- Adolygu prosesau a threfniadau caffael er mwyn sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau trwy e-Gaffael a defnyddio trefniadau cenedlaethol a rhanbarthol.

Blaenoriaeth 3: Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo?

Amcan - Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|----------------------|----------------|----------------|--|
| Canran y gostyngiadau cyllideb a gyflawnwyd | 75% | 100% | 100% | Yn 2018-19, rydym yn bwriadu £6.123 miliwn o ostyngiad cyllideb, o'i gymharu â £5.852 miliwn ar gyfer 2017-18. Hyd yn hyn, mae'n debygol y cyflawnir £4.012 miliwn o ostyngiadau cyllideb (69%) o'r cynigion ar gyfer arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2017-18, a chyflawnir y £1.840 miliwn sy'n weddill drwy arbedion amgen, y grant mwyaf posibl ac incwm arall, a rheolaeth lem ar swyddi gwag. |

Amcan –Gwella effeithionrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ail-lunio ein systemau a'n prosesau

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|----------------------|-----------------------------------|----------------|--|
| Nifer y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein | Amherthnasol | Dangosydd newydd ar gyfer 2018-19 | 5 | Er mwyn darparu gwasanaethau ar -lein yn ddigidol mae angen gwaith sylweddol i ail-lunio prosesau busnes yn beirianyddol. Mae'r targed yn heriol ond yn gyraeddadwy. |

Amcan - Manteisio i'r eithaf ar ein hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|-----------------------------------|-----------------|---|--|
| Canran y lleoedd ysgol gwag mewn a) ysgolion cynradd b) ysgolion uwchradd | a) 5% b) 19% | a) 6% b) 20% | I'w gadarnhau | Sicrhau bod modd bodloni'r galw am leoedd. Ein nod yn y tymor hir yw lleihau nifer y lleoedd ysgol gwag ar lefel uwchradd i oddeutu 10%. |
| Cyrraedd y targed ar gyfer derbyniadau cyfalaf | £5.62 miliwn | £1.5 miliwn | £4 miliwn | Mae'r targed wedi'i seilio ar y rhagamcan o werthiannau a gyflawnir. |
| Canran y newid yn yr allyriadau carbon yn y stoc o adeiladu cyhoeddus annomestig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol | 12.79% | 3% | Cynnal enillion diwedd blwyddyn 2017-18 | Cedwir y targed ar lefel wirioneddol 2017-18 ac mae hyn yn heriol wrth ystyried yr adnoddau cyfredol. |
| Incwm ychwanegol a grëwyd gan bortffolio eiddo an-weithredol y Cyngor | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | £25,000 | £25,000 | Cedwir y targed ar lefel wirioneddol 2017-18 ac mae hyn yn heriol wrth ystyried yr adnoddau cyfredol. |

Amcan – Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|---|-------------------------|-------------------|-------------------|--|
| Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn yr awdurdod lleol a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch | 10.7 | 8.5 | 8.5 | Mae cadw'r targed ar y lefel gyfredol yn heriol wrth ystyried perfformiad cyfredol. |
| Canran y cyflogeion sy'n cyflawni modiwlau e-ddysgu. | 59% | 45% | 45% | Mae'r targed wedi'i seilio ar nifer y cyflogeion y disgwylir iddynt gyflawni modiwlau hyfforddi gorfodol. Mae'r ganran yn cynnwys y gweithlu cyfan ac felly dylai ostwng wrth i staff gael eu hyfforddi. |
| Nifer y rheolwyr sy'n cael hyfforddiant i wella'u sgiliau rheoli pobl (gan gynnwys rheoli absenoldebau) | 235 | 200 | 150 | Mae'r targed hwn wedi'i seilio ar lefel yr hyfforddiant y rhagwelir y bydd ei angen. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod ar gael ers sawl blwyddyn ac mae nifer sylweddol o gyflogeion eisoes wedi eu hyfforddi. |
| Nifer yr achosion o ryngweithio â dinasyddion ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (Facebook a Twitter) | 31,762 | 37,593 | 65,100 (dros dro) | Ein targed yw cynnydd blynyddol o 5%. Mae targed 2018-19 wedi'i seilio ar y ffigur ar gyfer y flwyddyn 2017-18 hyd yn hyn. Caiff y targed terfynol ei seilio ar y nifer gwirioneddol o achosion o ryngweithio, a byddwn yn gwybod hyn ar ddiwedd 2017-18. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall nifer yr achosion o ryngweithio fod yn amrywiol iawn mewn unrhyw flwyddyn ar sail gweithgarwch y Cyngor a ffactorau allanol yn y sir e.e. cyflwyno Contract Gwastraff newydd neu gynnal digwyddiad mawr megis yr Urdd. |


Amcan - Manteisio i'r eithaf ar ein gwariant ar nwyddau a gwasanaethau

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2016-17 | Targed 2017-18 | Targed 2018-19 | Rhesymeg dros y targed |
|--|-----------------------------------|-------------------|-------------------|--|
| Canran y tendrau uwchlaw trothwy'r UE yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 sy'n cydymffurfio | Dangosydd newydd ar gyfer 2017-18 | 100% | 100% | Byddai cydymffurfiaeth o lai na 100% yn peri risg o lai o effeithlonrwydd. |


Y Gyllideb i gefnogi ein blaenoriaethau

Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynllyniau incwm a gwariant ar gyfer 2018-19. Incwm referniw gros y Cyngor ar gyfer 2018-19 £402 miliwn.

O Ble y Daw'r Arian – Incwm Refeniw Gros 2018-19 £'000





Ble y Bydd Arian yn Cael Ei Wario – Gwariant Refeniw Gros 2017-18 £0,000




Sylwer: Mae Swyddogaethau Corfforaethol yn cynnwys Costau Cyllid Cyfalaf, Praeseptau ac Ardoliau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer cyflog a phrisiau.

Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a'r seilwaith, cynyddu asedau neu ddarparu grantiau cyfalaf i eraill. Y gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2018-19 yw £33.693 miliwn. Mae'r siartiau isod yn darparu manylion y meysydd gwasanaeth lle y bwriedir gwario cyfalaf a sut y bydd y gwariant yn cael ei ariannu yn ystod y flwyddyn.



Mae gan yr awdurdod gyllideb refeniw net o £265.984 miliwn sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i wasanaethau craidd a swyddogaethau statudol. Caiff y gyllideb net ei chyllido gan Grant Cymorth Refeniw, Cyfraddau Annomestig (NDR) ac incwm y Dreth Gyngor, ac nid yw'n cynnwys incwm o ffynonellau arian eraill megis grantiau eraill gan y llywodraeth, derbyniadau gan gwsmeriaid a chleientiaid, a llog sy'n ariannu'r gwariant refeniw gros. Mae'r siart isod yn darparu manylion am sut y mae'r gyllideb refeniw net wedi'i dyrannu ar gyfer 2018-19.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud popeth y gallant i gyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith amcan llesiant hirdymor, yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, ac yn diffinio pum ffordd o weithio y bydd angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r diagram isod yn dangos sut y mae'r saith nod cenedlaethol, y datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn cydblethu.



Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r amcanion llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi ystyriaeth, wrth wneud penderfyniadau, i'r effaith y gall y pum ffordd o weithio ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.